Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD BLYNYDDOL
O GYNGOR SIR YNYS MÔN
A OHIRWYD**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 30 MAI 2013**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for the**

**ADJOURNED ANNUAL MEETING
OF THE ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 30 MAY 2013**

**at 2.00 pm**

# R H A G L E N

**Bydd Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn annerch y Cyngor.**
**(Bydd sesiwn fer o holi ac ateb ar gyfer yr aelodau)**

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 2 CYHOEDDIADAU

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu gan y Prif Weithredwr.

## 3 AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o'r Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae ef wedi ei ddewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u Cyfrifoldebau Portffolio.

## 4 CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 Cyfansoddiad y Cyngor, penodi Cadeirydd ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig.

**[Nodyn: Paragraff 3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn ei ail gyfarfod (gohiriedig) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi enwau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac mewn cyfarfodydd eraill os oes angen) trwy bleidlais gudd, a bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a Gofnodir" yn cael ei hatal i'r pwrpas hwn.**

**Paragraff 3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdod lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol wedi eu cynrychioli ar ei Bwyllgor Gwaith, ac yn y fath achos ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith)].**

## 5 CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau rhannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi bod angen i'r Cyngor gytuno arnynt (fel sydd wedi ei nodi ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

## 6 RHAGLEN O GYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd arferol y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-

| | |
|---|---|
| 10 Hydref 2013 | - 2:00 pm |
| 5 Rhagfyr 2013 | - 2:00 pm |
| 27 Chwefror 2014 | - 2:00 pm |
| 15 Mai 2014 (Cyfarfod Blynyddol) | - 2:00 pm |

## 7 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

## 8 PENODI I GYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

## 9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CYNGHORWYR I WASANAETHU AR BWYLLGORAU

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar adolygiad o'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 2 Mai 2013 ac ar benodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

**[Nodyn: Mae cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i grwpiau gwleidyddol ac nid i Aelodau digyswllt. Yn y cyfarfod heddiw (gohiriedig), bydd y Cyngor yn neilltuo Aelodau a enwir i wasanaethau ar Bwyllgorau yn unol â phenderfyniadau eu Harweinwyr Grŵp a byddant yn penodi unrhyw Aelodau Digyswllt i seddau ar Bwyllgorau na ellir eu llenwi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol].**

Yn syth ar ôl yr uchod, bydd pob Cyfarfod y cyfeirir ato isod yn cwrdd am gyfnod byr i benodi ei Gadeirydd a'i Is Gadeirydd (ac eithrio'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gafodd sylw yn Eitem 4 uchod):-

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu

**[Nodyn: Anfonwyd rhybuddion ar wahân i bob Aelod a'r aelodau cyfetholedig ar gyfer y cyfarfodydd uchod].**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **30 MAI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Penderfynu cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol** |

1) **Rhagarweiniad**

Mae penodi Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol yn swyddogaeth Dewis Lleol yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)(Swyddogaeth a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2011 fel y cawsant eu diwygio.

Mae Adran 5.7 y Cyfansoddiad – (Protocolau Rheolaeth Wleidyddol) – yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer penodi i gyrff allanol.

Cyn etholiad Mai 2013 adolygwyd y rhestr o gyrff allanol gan swyddogion mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grwpiau, a hynny oherwydd y gostyngiad yn nifer yr Aelodau a fydd ar gael i wasanaethu ar gyrff o'r fath ar ôl yr etholiad ac effaith hynny ar eu baich gwaith.

Mae angen Aelodaeth Gweithrediaeth ar rai cyrff allanol ac yr Arweinydd, gydag awdurdod dirprwyiedig, sy'n gwneud penodiadau o'r fath. Mae penodiadau i gyrff allanol eraill angen eu gwneud gan y Cyngor, yn unol â'r atodiad i'r adroddiad hwn.

Caiff aelodau eu penodi i wasanaethu ar gyrff allanol am gyfnod o 4 blynedd fel arfer hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf ym Mai 2017 ac yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith [Adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad]. Bydd Aelodau'n nodi bod yna wahaniaeth o ran amlder cyfarfodydd, gyda rhai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol o leiaf.

**2) Materion Eraill**

**Cyrff Allanol Lleol:**

Mewn perthynas â chyrff allanol y mae eu gweithgareddau yn cael eu cyfyngu i ward berthnasol, bydd Cynghorydd/Cynghorwyr y ward fel arfer yn dod i gytundeb ynghylch pwy o'u plith fydd yn cael eu penodi.

Mae'r protocol ar gyfer wardiau amlaelod a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mawrth 2013 ac a ddosbarthwyd i'r holl Aelodau ar ôl yr etholiad yn cynnwys canllawiau ar ymgysylltiad Aelodau gyda grwpiau cynrychioliadol lleol e.e. cyfarfodydd cynghorau cymuned, fforymau lleol ac ati.

**Llywodraethwyr Ysgol**

Bydd cynrychiolwyr cyfredol y Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion yn parhau yn eu lle hyd at 31 Awst 2013 ac fe fydd penodiadau newydd yn weithredol o 1 Medi 2013. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes yn rhoi sylw i'r mater yma mewn ymgynghoriad a'r Arweinyddion Grwpiau ac yn cymryd maint cyffredinol y Cyngor i ystyriaeth wrth wneud hynny.

**Ymgynghori gyda'r Arweinydd ac Arweinyddion Grwpiau**

O ganlyniad i'r adolygiad hwn bydd y rhestr sydd ynghlwm o gyrff allanol yn cael ei thrafod gyda'r Arweinydd a'r Arweinyddion Grwpiau cyn i'r Cyngor ei chadarnhau yn ei gyfarfod ar 30 Mai.

## 3) Argymhellion

1. Y Cyngor i benderfynu'r Aelod(au) sydd i wasanaethau ar y cyrff allanol a restrir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn (ar wahan i'r cyrff allanol a benderfynir gan yr Arweinydd);

2. Os bydd angen gwneud newidiadau yn y dyfodol mewn perthynas â chynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr wneud hynny mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau;

3. Mewn perthynas â chynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion, rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol oes, mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion Grwpiau, i wneud penodiadau o'r fath.

**Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Democrataidd**
**16/5/13**

# CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU, PARTNERIAETHAU A LLYWODRAETHWYR YSGOL – MAI 2013

**I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR (Mi fydd angen penodi Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer rhai o'r Cyrff Allanol isod. Yr Arweinydd fydd yn penodi)(gweler trosodd).**

| Rhif | Teitl | Nifer eu hangen |
|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1) (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2017)* | 3 |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.1) *(2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.2) *(yr aelod sydd ar ôl)* | 1 |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Ynys Môn (9) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol ym Mai 2017).* | 3 |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (13.1) (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (16) (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 |
| 7. | Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon (105) *(Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 |
| 8. | Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-daliadau) (90) | 1 |
| 9. | A.H.N.E. (92) *(4 Aelod o Wardiau arfordirol yn ddelfrydol yn dod o bedwar pwynt y cwmpawd ar yr ynys).* | 4 |
| 10. | Cyd-bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 1 |
| 11. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (1 aelod annibynnol) (Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol i bwrpasau parhad i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2013). | 1 |
| 12. | CAB Ynys Môn (35) *(Aelod unigol)* | 1 |
| 13. | Medrwn Môn (37) *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 |
| 14. | Grŵp Mynediad Ynys Môn (58) *(Aelod unigol)* | 1 |
| 15. | Cymdeithas yr Henoed Gwynedd a Môn (69) *(Aelod unigol)* | 1 |
| 16. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) *(aelod lleol)* | 1 |
| 17. | TALNET (Cyd Gymdeithas Lyfryddol) (78) *(dau aelod)* | 2 |
| 18. | Cwmni Frân Wen (100) *(Sylwedydd)* | 1 |
| 19. | Cyd-bwyllgor TAITH (33) | 1 |
| 20. | Pwyllgor Rheoli CYNNAL (73.1) | 1 |
| 21. | Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn (a elwir yn awr yn Canllaw) (56) | 1 |

*(I bwrpasau gweinyddol, mae'r rhifau a ddangosir mewn bracedi ar ôl y penawdau yn cyfeirio at y cyfeiriadau ffeil o fewn y rhestr wreiddiol o Gyrff Allanol).*

Atodiad 1

## CYRFF ALLANOL I'W PENDERFYNU GAN ARWEINYDD Y CYNGOR :

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-daliadau) (90) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 2 | Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd) (90A) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 3 | Menter Môn (55) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 4 | C.B.A.C. (3) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 5 | Llys Llywodraethwyr, Prifysgol Cymru, Bangor (5) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 6 | Grŵp Llandrillo/Menai (y cyn Goleg Menai) (7) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 7 | A.H.N.E. (92) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 8 | Cydbwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 9 | Cydbwyllgor Rhanbarthol Effeithlonrwydd a Gwella Ysgol *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 10 | Cydbwyllgor TAITH (33) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 11 | Pwyllgor Rheoli CYNNAL (2 aelod) (73.1) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 12 | Pwyllgor Cyffredinol Blynyddol Cwmni CYNNAL (73.2) *(Fel arfer yr Arweinydd i benodi Aelod i gynrychioli'r Cyngor hwn ym Mhwyllgor Cyffredinol Blynyddol CYNNAL gyda golwg ar i'r Aelod hwnnw enwebu 2 aelod o'r Cyngor i wasanaethu fel Cyfarwyddwyr y Cwmni) (gweler 21 ar restr y Cyngor)* | 1 |
| 13 | Cydbwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (27.1) (2 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 2 |
| 14 | Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (30) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a'r Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth)* | 1 |
| 15 | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn (72) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel Aelod arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)* | 1 |
| 16 | Bwrdd Aelod Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW) (25) (Dau Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 2 |
| 17 | Grŵp Llywio Adolygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (27) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 18 | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru (52) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwasanaethu fel aelod cyfetholedig o'r Bwrdd)* | 1 |
| 19 | Cymdeithas Tai Eryri (53) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 |
| 20 | Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn (a elwir yn awr yn Canllaw) (56) (Aelod o'r Pwyllgor Gwaith) | 1 |
| 21 | Bwrdd Partneriaeth Strategol : Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (80) (Dim yn cyfarfod bellach) (trafodaeth yn parhau rhwng yr Awdurdod hwn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â sefydlu Bwrdd Darparu Gweithredol Iechyd a Lles (Fforwm Sirol) i hyrwyddo integreiddiad y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae aelodaeth y Bwrdd hwn yn cael ei drafod ar hyn o bryd a'r gobaith yw y gellir cwblhau hynny erbyn mis Medi) | I'w benderfynu |
| 22 | Cwmni Prentis Menai (107) *(Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd)* | 1 |
| 23 | Fforwm Economaidd Gogledd Cymru (32) (*Yr Arweinydd ac Aelod o'r Pwyllgor Gwaith gyda'r Pennaeth Datblygu Economaidd fel ymgynghorydd).* | 2 |
| 24 | Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd) (*Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr)* | 1 |
| 25 | Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol (5 aelod) (*Cyn hyn – yr Arweinydd, Deilyddion Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Cymdeithasol a 2 aelod Sgriwtini).* | 5 |

*(I bwrpasau gweinyddol, mae'r rhifau a ddangosir mewn bracedi ar ôl y penawdau yn cyfeirio at y cyfeiriadau ffeil o fewn y rhestr wreiddiol o Gyrff Allanol).*

Saccs/Aelodaeth/2013

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **30 Mai 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN DILYN ETHOLIAD LLYWODRAETH LEOL AR 2 MAI 2013** |

1.0 Yn dilyn y newidiadau diweddar yn aelodaeth y Grwpiau Gwleidyddol ar ôl yr Etholiad, mae angen i'r Cyngor adolygu ei drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau.

2.0 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol, sef:

"(a) *that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

3.0 Mae tabl ynghlwm sy'n amlinellu cydbwysedd gwleidyddol Pwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod. Mae'r tabl yn awr yn dangos y tri grŵp gwleidyddol gyda 13,12 a 3 Aelod a'r 2 Aelod nad yw'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt.

4.0 Rhoddwyd sylw i natur pob un o Bwyllgorau'r Cyngor a'r rheini y mae gofynion Cydbwysedd Gwleidyddol yn berthnasol iddynt ac maent wedi eu grwpio fel a ganlyn:-

- Sgriwtini:-
    - Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (10 aelod)
    - Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (10 aelod)

- Rheoleiddiol:-
    - Cynllunio a Gorchmynion
    - Archwilio
    - Penodiadau
    - Apeliadau
    - Trwyddedau
    - Gwasanaethau Democrataidd

- Pwyllgorau eraill:-
    - Cynllunio ar y Cyd(Cynllun Datblygu Lleol)
    - CYSAG
    - Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau
    - AAA
    - Tâl a Graddfeydd
    - Is-Bwyllgor Indemniadau

5.0 Mae cyfanswm o 114 o seddau i'w dyrannu.

6.0 Yn naturiol, onid yw'r symiau'n gweithio allan fel bod cyfanrif o seddau ar gael fel cyfanswm, a chyfanrif o seddau ar bob pwyllgor, mae'n anochel y bydd ffracsiynau ac ni fydd yn bosib cydymffurfio'n union. Fodd bynnag, mae angen sicrhau'r cydymffurfiaeth orau posib o ran nifer y seddau a ddyrennir, a hynny'n unol â'r egwyddorion a amlinellir ym mharagraff 2 uchod.

7.0 Ni all pob grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun, ac ni all ddyrannu sedd i Gynghorydd nad yw'n aelod o'r un grŵp gwleidyddol.

8.0 Yn unol â'r protocolau rheolaeth wleidyddol, bydd angen i'r Arweinyddion Grwpiau ac Arweinydd y Cyngor gyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro cyn y cyfarfod o'r Cyngor i ddarparu rhestr o enwau'r rheini sy'n cynrychioli eu grŵp ar y Pwyllgorau unigol a'r Aelodau nad yw'r rheolau cydbwysedd yn berthnasol iddynt, ynghyd â'u cynigion ar gyfer pa Gynghorwyr fydd yn Cadeirio ac yn Is-Gadeirio pob pwyllgor i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd fydd yn dilyn yn syth ar ôl y cyfarfod o'r Cyngor ar 30 Mai 2013 i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i bwyllgorau.

9.0 Er nad yw gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau, mae angen i'r Cyngor benodi 2 Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor hwnnw am dymor y Cyngor.

10.0 **Argymhellion:-**

Gofynnir i'r Cyngor:

(i) nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol priodol newydd a'r nifer o seddau a roddir i bob Grŵp dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a nifer y seddau a roddir yn ôl trefn ac arfer i'r Aelodau nad yw'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt.

(ii) cytuno'r cyfanrif o seddau a rennir i'r Aelodau nad yw'r gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt, a bod yr Arweinyddion Grwpiau ac Arweinydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad y seddau hynny i'r Aelodau hynny (trwy gytundeb lle mae modd gwneud hynny).

(iii) cadarnhau enwau'r Aelodau sy'n eistedd ar y pwyllgorau a nodir isod fel bod modd paratoi ar gyfer y cyfarfodydd i ethol Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ac a gynhelir yn syth ar ôl y cyfarfod hwn:

- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu

(iv) mewn perthynas â'r Pwyllgorau eraill y manylir arnynt yn yr atodiad i'r adroddiad hwn, Arweinyddion Grwpiau i ddarparu manylion am aelodaeth y Pwyllgorau hynny i'r Rheolydd Gwasanaethau Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd.

(v) penodi dau Aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am dymor y Cyngor hwn yn unol â pharagraff 9 uchod.

Atodiad 1

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU, PARTNERIAETHAU A LLYWODRAETHWYR YSGOL – MAI 2013**

**I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR (Mi fydd angen penodi Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer rhai o'r Cyrff Allanol isod. Yr Arweinydd fydd yn penodi)(gweler trosodd).**

| **Rhif** | **Teitl** | **Nifer eu hangen** | **Enwau** |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1) (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2017)* | 3 | L Davies, Jim Evans, Jeff Evans |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.1) *(2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | L Davies, Jeff Evans |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.2) *(yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | Jim Evans |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Ynys Môn (9) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol ym Mai 2017).* | 3 | R Jones, Jeff Evans, A Griffith |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (13.1) (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | I Williams, J Arwel Roberts |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (16) (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 | A Rowlands |
| 7. | Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon (105) *(Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 | D Thomas |
| 8. | Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Blwydd-daliadau) (90) | 1 | H E Jones |
| 9. | A.H.N.E. (92) *(4 Aelod o Wardiau arfordirol yn ddelfrydol yn dod o bedwar pwynt y cwmpawd ar yr ynys).* | 4 | R Dew, L Davies, D R Hughes, Victor Hughes |
| 10. | Cyd-bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 1 | Victor Hughes |
| 11. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (1 aelod annibynnol) (Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol i bwrpasau parhad i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2013). | 1 | W T Hughes |
| 12. | CAB Ynys Môn (35) *(Aelod unigol)* | 1 | R Ll Jones |
| 13. | Medrwn Môn (37) *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | I Williams |
| 14. | Grŵp Mynediad Ynys Môn (58) *(Aelod unigol)* | 1 | A Griffith |
| 15. | Cymdeithas yr Henoed Gwynedd a Môn (69) *(Aelod unigol)* | 1 | Jim Evans |
| 16. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | D R Hughes |
| 17. | TALNET (Cyd Gymdeithas Lyfryddol) (78) *(dau aelod)* | 2 | R Dew, Vaughan Hughes |
| 18. | Cwmni Frân Wen (100) *(Sylwedydd)* | 1 | R M Jones |
| 19. | Cyd-bwyllgor TAITH (33) | 1 | B Parry |
| 20. | Pwyllgor Rheoli CYNNAL (73.1) | 2 | R M Jones, I Williams |
| 21. | Pwyllgor Rheoli Gofal a Thrwsio Môn (a elwir yn awr yn Canllaw) (56) | 1 | A Mummery |

*(I bwrpasau gweinyddol, mae'r rhifau a ddangosir mewn bracedi ar ôl y penawdau yn cyfeirio at y cyfeiriadau ffeil o fewn y rhestr wreiddiol o Gyrff Allanol).*

Saccs/Aelodaeth/2013

**MAI 2013**
Cyngor Sir 5 Mawrth 2013 ac etholiad

**MAY 2013**
County Council 5 March 2013 and election

| **Balans ar y Cyngor Sir**<br>**Balance on County Council** | | **Pwyllgorau**<br>**Committees** | **PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**<br>**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES** | | | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Aelodaeth<br>Membership | | | | 10 | 10 | 20 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 12 | | | | | *4*<br>4 | *4*<br>4 | *8*<br>8 |
| Llafur<br>Labour | 3 | | | | | *1*<br>1 | *1*<br>1 | *2*<br>2 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | 13 | | | | | *4.333333*<br>5 | *4.33333*<br>4 | *8.66667*<br>9 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | 2 | | | | | *0.666667*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *1.33333*<br>1 |
| | 30 | | | | | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *20*<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

Tudalen 8

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | **LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL**<br>Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL**<br>CYSAG<br>SACRE | Anghenion Addysgol Arbennig<br>Special Educational Needs | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 10 | 11 | 6 | 7 | 7 | 6 | 3 | 5 | 94 | 114 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *4.4*<br>5 | *3.2*<br>3 | *4*<br>4 | *4*<br>4 | *4*<br>4 | *4.4*<br>5 | *2.4*<br>2 | *2.8*<br>3 | *2.8*<br>3 | *2.4*<br>2 | *1.2*<br>1 | *2*<br>2 | *37.6*<br>38 | *45.6*<br>46 |
| Llafur<br>Labour | *1.1*<br>1 | *0.8*<br>1 | *1*<br>1 | *1*<br>1 | *1*<br>1 | *1.1*<br>1 | *0.6*<br>0 | *0.7*<br>0 | *0.7*<br>1 | *0.6*<br>1 | *0.3*<br>0 | *0.5*<br>1 | *9.4*<br>9 | *11.4*<br>11 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *4.76667*<br>5 | *3.46667*<br>3 | *4.33333*<br>4 | *4.33333*<br>4 | *4.333333*<br>4 | *4.766667*<br>5 | *2.6*<br>3 | *3.033333*<br>3 | *3.033333*<br>3 | *2.6*<br>3 | *1.3*<br>1 | *2.166667*<br>2 | *40.73333*<br>40 | *49.4*<br>49 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | *0.73333*<br>0 | *0.53333*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.666667*<br>1 | *0.733333*<br>0 | *0.4*<br>1 | *0.466667*<br>1 | *0.466667*<br>0 | *0.4*<br>0 | *0.2*<br>1 | *0.333333*<br>0 | *6.266667*<br>7 | *7.6*<br>8 |
| | *11*<br>11 | *8*<br>8 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *11*<br>11 | *6*<br>6 | *7*<br>7 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *94*<br>94 | *114*<br>114 |

This page is intentionally left blank